WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 632A2011

# Statws yr adroddiad

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Matthew Coe, Tracy Veale, Anthony Ford, Andrew Strong ac Elaine Matthews

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 10 |
| Mae arbedion cost rhagamcanol yn cael eu cyflawni ac mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12 | 10 |
| Yn gyffredinol, gwnaed peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd | 11 |
| Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cynllunio swyddi'n flynyddol ar gyfer meddygon ymgynghorol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu | 13 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellir gwneud nifer o welliannau i gryfhau'r broses | 14 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynyddol diwethaf | 15 |
| Ffi archwilio | 16 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2011.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, sy'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir a chytunir ar yr adroddiadau hyn gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Mae negeseuon allweddol fy ngwaith archwilio wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2010-11, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Er fy mod yn cydnabod bod y broses o baratoi cyfrifon terfynol wedi gwella'n sylweddol eleni, gellir gwneud gwelliannau pellach eto.
6. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol; fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach yn rhai o feysydd y broses baratoi; ac
   - mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod lle i gryfhau rhai agweddau ymhellach.
7. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i reolaeth ariannol a chyllidebol effeithiol.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd fel rhan o waith yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae arbedion cost rhagamcanol yn cael eu cyflawni ac mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y byddant yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2011-12;
- yn gyffredinol, gwnaed peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd;
- er bod yr Ymddiriedolaeth yn cynllunio swyddi'n flynyddol ar gyfer meddygon ymgynghorol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellir gwneud nifer o welliannau i gryfhau'r broses.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 5 Rhagfyr 2011. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd. Rydym yn argymell yn gryf y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng Rhagfyr 2010 a Thachwedd 2011.

**12.** Rwy'n cyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004 sy'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun y gwariwyd yr arian a drafodir yn y cyfrifon mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei bod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**13.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o fy Asesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, oedd yn archwilio'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Yn olaf, mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2010-11. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi gwarged neu ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth gyflwyno'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â fy Nghod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a
- systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Roedd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol; fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach yn rhai o feysydd y broses baratoi

**21.** O dan ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar unrhyw faterion sy'n deillio o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y

materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 6 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r prif negeseuon a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Negeseuon allweddol a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

| Negeseuon allweddol |
|---|
| Nid oedd unrhyw addasiadau i ardystiad ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. |
| Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro. |
| Cafwyd rhai camddatganiadau wedi'u cywiro. |
| Nid oedd gennym unrhyw bryderon sylweddol ynghylch agweddau ansoddol arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr Ymddiriedolaeth er i ni nodi rhai meysydd y gellid eu gwella yn y dyfodol. |
| Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol a drafodwyd ac a ohebwyd yn eu cylch gyda'r rheolwyr angen eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio. |
| Ni chawsom unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad. |
| Nid oedd unrhyw faterion eraill pwysig i'r arolygiaeth o'r broses adrodd ariannol sydd angen i ni eich hysbysu amdanynt. |
| Ni ddaethom o hyd i unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaeth fewnol nad ydym eisoes wedi'ch hysbysu amdanynt. |
| Nid oedd unrhyw faterion eraill i adrodd arnynt o ran llywodraethu. |

**22.** Nodwyd gennym fod ansawdd cyffredinol y dogfennau i gefnogi'r cyfrifon wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd parhaus yn amlwg eleni o ystyried mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r Ymddiriedolaeth arwain y gwaith o baratoi'r cyfrifon. Nodwn yn arbennig y gefnogaeth a'r cymorth rhagorol a gawsom gan staff Cyllid wrth ymateb i'n hymholiadau archwilio, ac mae'r papurau gwaith wedi gwella'n sylweddol ers y llynedd o ran ansawdd a phrydlondeb.

**23.** Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i wella'i phrosesau eleni, ceir meysydd lle gellid gwella'r gweithdrefnau. Er enghraifft, bydd sicrhau bod y papurau gwaith a'r nodiadau ategol yn cael eu paratoi'n unol â'r cynllun cau cyfrifon yn parhau gwelliannau'r blynyddoedd a fu.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod lle i gryfhau rhai agweddau ymhellach

**24.** Yn ystod yr archwiliad, ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig, na'r systemau rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, roedd yna feysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Er nad oedd y rhain yn effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi'r cyfrifon terfynol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i gryfhau'r rheolaeth fewnol ymhellach.

**25.** Mae'r prif feysydd rheolaeth ariannol fewnol sydd angen eu cryfhau yr adroddwyd wrth yr Ymddiriedolaeth yn eu cylch yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau bod 'cofrestr reoli gryno' yn cael ei darparu bob mis, fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â phryd y paratoir ac yr adolygir pob cysoniad, enwau'r staff sy'n gwneud y tasgau hynny a sylwadau ar unrhyw eitemau cysoni heb eu clirio; a
- sicrhau bod y cyfriflyfr cyffredinol yn cael ei ddiweddaru'n amserol ar gyfer yr holl addasiadau sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn.

**26.** Darparodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Caerdydd a'r Fro wasanaeth archwilio mewnol i'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2010-11. Rydym wedi asesu eu gwaith ac yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol GIG Cymru. Roedd y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cefnogi barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd system reolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth, fel yr adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2011.

**27.** Cynhaliwyd adolygiad o system ariannol newydd Oracle a'r seilwaith TG lleol sy'n sail i'r system fel rhan o'n gwaith yn 2010-11. Hefyd, gwnaethom waith dilynol ar ein hadolygiad yn 2009-10 o'r mesurau rheoli lleol sy'n bodoli ar gyfer system Cofnodi Staff Electronig (ESR) y Gyflogres. Ar sail ein gwaith, daethom i'r casgliad bod seilwaith TGCh yr Ymddiriedolaeth sy'n cefnogi'r systemau ariannol hyn yn gyfredol ar y cyfan, gyda threfniadau cymorth da ar waith, ond bod angen gwella rhai mesurau rheoli amgylcheddol.

## Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i reolaeth ariannol a chyllidebol effeithiol

**28.** Roedd gan yr Ymddiriedolaeth warged wrth gefn o £38,000 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011. Mae rheolaeth ariannol a chyllidebol effeithiol, ynghyd â'r ffaith bod nifer o swyddi staff uwch wedi parhau'n wag yn ystod 2010-11, wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei tharged arbedion yn llwyddiannus, a gohirio £600,000 o incwm 2010-11 i 2011-12 gyda chytundeb Llywodraeth Cymru.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**29.** Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi cynnal amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i fy helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd a wneir yn y gwaith o gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad i gyflawni ei tharged o fantoli'r gyllideb;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'r 'meysydd datblygu' a nodwyd gennym yn Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- adolygu'r trefniadau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u sefydlu i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu; ac
- asesu'r broses y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio a chynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol.

**30.** Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

### Mae arbedion cost rhagamcanol yn cael eu cyflawni ac mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12

**31.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11, roedd gofyn i'r Ymddiriedolaeth reoli bwlch ariannol o £3.7 miliwn. Er i'r Ymddiriedolaeth allu nodi gwerth £2.5 miliwn o arbedion corfforaethol, roedd rhaid dod o hyd i £1.2 miliwn pellach ar draws y Cyfarwyddiaethau. Yn 2010-11, roedd mwyafrif y cynlluniau arbedion yn anghylchol ac yn seiliedig ar reoli swyddi gwag a rhewi swyddi o fewn y sefydliad presennol. O ganlyniad i hyn a rheoli ariannol effeithiol, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei thargedau arbedion a chofnododd warged o £38,000 ar gyfer 2010-11.

**32.** Ar gyfer 2011-12, mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth gyflawni arbedion o £2.8 miliwn ar sail gylchol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi paratoi rhestr fanwl o gynlluniau arbedion y mae'n ei defnyddio'n fewnol i nodi a monitro perfformiad, a chyflwynwyd y rhestr i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae dadansoddiad o'r cynlluniau ar gyfer 2011-12 yn dangos bod y rhaglen gwella costau yn gyfuniad cytbwys o gynlluniau arbedion cylchol ar gyfer y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr, ac mae'n llai dibynnol ar reoli swyddi gwag.

**33.** Nododd yr Ymddiriedolaeth dargedau gwella costau is-adrannol a thargedau gwella costau corfforaethol. Mae'r targedau gwella costau is-adrannol ar gyfer yr holl ddeiliaid cyllideb yn £1.189 miliwn gyda gweddill yr arbedion yn deillio o raglenni corfforaethol. Mae'r rhaglen arbedion corfforaethol yn cynnwys meysydd fel teithio a chynhaliaeth, cynadleddau a llogi lleoliadau, a chaffael yn ogystal â chynlluniau mwy fel cynlluniau diswyddo cynnar gwirfoddol, arian grantiau ac ystadau.

**34.** Wrth baratoi'r cynlluniau arbedion, ymgysylltodd yr Ymddiriedolaeth â staff drwy nifer o weithdai i rannu gwybodaeth fanwl am gyllidebau is-gyfarwyddiaeth a'r heriau ariannol roeddynt yn eu hwynebu. Cafwyd dros 250 o syniadau ar gyfer arbed arian sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan yr arweinydd prosiect perthnasol. Hefyd, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth gyfarfodydd rheolaidd gyda thimau Iechyd Cyhoeddus lleol i bennu gweithgareddau lle gellir rhannu adnoddau.

**35.** Caiff yr holl gyllidebau a chynlluniau arbedion eu monitro mewn cyfres o gyfarfodydd misol a gynhelir rhwng deiliaid cyllidebau, cyfarwyddwyr is-adrannol, cyfarwyddwyr gweithredol a'r adran gyllid canolog. Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol yn sicrhau bod y cyfarwyddwyr is-adrannol yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni cynlluniau gwella costau a chyllideb, tra'n atgyfnerthu atebolrwydd dirprwyedig. Er bod adroddiad ar berfformiad ariannol yn cael ei gyflwyno'n fisol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar lefel cyfarwyddiaeth, mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o sefydlu adroddiadau perfformiad ariannol ar lefel is-adrannau, gan fod y strwythurau is-adrannol bellach ar waith.

**36.** Mae'r Ymddiriedolaeth ar y ffordd tuag at gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd. Roedd y targed rhagamcanol i arbed £1.868 miliwn ar ôl chwe mis wedi'i gyrraedd ac mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## Yn gyffredinol, gwnaed peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd

**37.** Rwyf wedi asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r meysydd datblygu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd ac wedi dod i'r casgliad bod peth cynnydd cyffredinol wedi'i wneud ond erys heriau penodol o hyd.

### Er bod y broses gynllunio ariannol flynyddol wedi gwella, dylai'r Ymddiriedolaeth roi blaenoriaeth i ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig

**38.** Daeth fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i gryfhau ei threfniadau rheoli ariannol i'r casgliadau canlynol:

- mae'r broses gynllunio ariannol flynyddol wedi gwella ac mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen gytbwys ar gyfer gwella costau, ond mae angen i'r Ymddiriedolaeth gynhyrchu cynllun ariannol tymor canolig ar fyrder er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a moderneiddio'r gwasanaeth yn y dyfodol; ac

- mae manylder y wybodaeth ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd wedi parhau i wella, ac yn ymddangos yn briodol o ystyried sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu er bod angen datblygiadau pellach mewn nifer o feysydd allweddol

**39.** Mae fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed i gryfhau'r trefniadau llywodraethu wedi canfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud y canlynol:

- cefnogi strategaeth pum mlynedd yr Ymddiriedolaeth drwy ddatblygu fframwaith strategol sylfaenol, ond nid yw'r gwaith i sefydlu amcanion lefel weithredol yn y cynlluniau cyflenwi strategol is-adrannol wedi'i gwblhau eto;
- penodi Cyfarwyddwr Datblygu Iechyd Cyhoeddus, gyda'r sawl sy'n cael y swydd i ddechrau ar y gwaith ym mis Tachwedd 2011;
- rhoi nifer o gamau ar waith i gryfhau ei threfniadau rheoli risg yn ystod 2011, a chynlluniau i ddatblygu a chytuno ar strategaeth reoli risg erbyn misoedd cyntaf 2012;
- cynnal nifer o archwiliadau clinigol ac iechyd cyhoeddus yn 2011 ond mae angen datblygu a chytuno ar raglen archwilio gyffredinol gydgysylltiedig i sicrhau bod lefelau sicrwydd priodol yn cael eu cyrraedd;
- gwneud peth cynnydd ar y prosiect diweddaru polisïau yn 2011 ar sail blaenoriaeth gyda gwaith pellach wedi'i gynllunio yn 2012; ac
- nad yw wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad cadarn eto i gefnogi gwaith adrodd a monitro perfformiad integredig ar bob lefel; mae cynlluniau i ddatblygu'r mater hwn ar waith gyda'r nod o'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2012.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ymhellach nifer o'i swyddogaethau 'galluogi' sy'n ei chynorthwyo i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ond araf fu cynnydd o ran datblygu strategaethau technoleg rheoli gwybodaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd ac adeiladau yr Ymddiriedolaeth

**40.** O ran y meysydd a nodwyd yn ein gwaith yn 2010 fel rhai oedd angen eu gwella mewn perthynas â'r ffactorau sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio'i hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, canfyddodd fy adolygiad o'r cynnydd bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud y canlynol:

- diweddaru ei gynlluniau gweithlu yn fuan yn 2011 ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau'r cynlluniau ymhellach i adlewyrchu fframweithiau gwasanaeth strategol a'r gweithlu wrth iddynt gael eu datblygu;
- cynlluniau i sefydlu strategaeth adeiladau gytûn yn gynnar yn 2012;
- datblygu strategaeth lywodraethu gwybodaeth ond mae angen gwaith pellach i gwblhau'r strategaeth reoli gwybodaeth a thechnoleg;

- datblygu cynllun gwella caffael ac mae wedi gwneud cynnydd o ran ymestyn cyrhaeddiad a dylanwad caffaeliadau ar draws yr Ymddiriedolaeth, ond gellid gwneud rhai gwelliannau o hyd mewn ychydig o feysydd;
- gorffen cam cyntaf y prosiect model darpariaeth gwasanaeth iechyd cyhoeddus i nodi lefel sylfaenol o adnoddau erbyn mis Mai 2011, ond mae angen gwaith pellach i weld lle mae angen buddsoddi rhagor a bwriedir cwblhau hyn erbyn Mawrth 2012;
- datblygu strategaeth gyfathrebu gorfforaethol yn Ebrill 2011; ac
- mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd y bwriedir ei chwblhau yn fuan yn 2012.

## Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cynllunio swyddi'n flynyddol ar gyfer meddygon ymgynghorol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu

**41.** Yn ystod 2011, adolygais y manteision a oedd yn deillio o'r contract meddygon ymgynghorol. Roedd fy adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol am fod hynny'n allweddol i'r broses o weithredu'r contract yn llwyddiannus. Dangosir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn isod.

### Er bod y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol wedi bod yn rhan o waith cynllunio swyddi blynyddol, nid yw'r prosesau presennol yn gadarn

**42.** Mae cynllunio swyddi ac arfarniadau'n digwydd yn flynyddol ar gyfer pob meddyg ymgynghorol ac eithrio rhai meddygon ymgynghorol uwch. Fodd bynnag, mae angen gwella trefniadau cynllunio swyddi presennol o ystyried y canlynol:

- nid yw'n gwbl eglur beth sy'n ofal clinigol uniongyrchol a beth sy'n weithgareddau proffesiynol ategol gan arwain at ddryswch posibl yn y cynlluniau swyddi;
- nid yw amser rheoli yn cael ei gydnabod yn gyson na'i nodi ar wahân mewn cynlluniau swyddi;
- yn gyffredinol, nid yw'r broses gynllunio swyddi yn seiliedig ar wybodaeth gadarn ac nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau swyddi yn cynnwys canlyniadau penodol, mesuradwy a chyraeddadwy; ac
- mae cynnwys partneriaid yn y broses gynllunio swyddi wedi bod yn her.

**43.** Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n cymryd camau i gryfhau ei threfniadau cynllunio swyddi, sy'n gam cyntaf cadarnhaol.

### Mae’r ffaith nad yw prosesau cynllunio swyddi cyfredol yr Ymddiriedolaeth wedi’u datblygu’n ddigonol yn golygu nad yw holl fanteision arfaethedig y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu

**44.** Bwriad y contract oedd diffinio wythnos waith meddygon ymgynghorol yn fwy eglur. Er bod y mwyafrif o feddygon ymgynghorol llawn amser ar gontractau 10 sesiwn, mae’r trefniadau cynllunio swyddi a adolygwyd yn golygu nad yw’n eglur a yw hyn yn adlewyrchiad cywir o’u hymrwymiadau gwirioneddol.

**45.** Hefyd, roedd y contract i fod i hwyluso gweithio agosach rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr i gefnogi’r gwaith o foderneiddio’r gwasanaeth. Er bod newidiadau ar waith o fewn y gwasanaeth, gellid gwneud mwy o ddefnydd o gynllunio swyddi i gynllunio a hwyluso newidiadau o’r fath.

**46.** Yn fwy cadarnhaol, mae’r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol yn ystyried bod eu cyfleusterau, megis cefnogaeth ysgrifenyddol, gofod swyddfa a chyfarpar TG, yn foddhaol, er nad yw’n eglur i ba raddau y mae hyn wedi’i ysgogi gan y contract meddygon ymgynghorol.

## Mae’r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellir gwneud nifer o welliannau i gryfhau’r broses

**47.** Rwyf wedi adolygu dull yr Ymddiriedolaeth o olrhain cynnydd gweithredu argymhellion archwilio er mwyn sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith. Er fy mod yn fodlon bod proses resymol ar waith i fonitro’r gweithrediad argymhellion archwilio, gellir cryfhau’r trefniadau presennol drwy wneud y canlynol:

- ychwanegu dyddiad cwblhau adroddiad yng Nghofnod Gweithredu’r Archwiliad; a
- datblygu dadansoddiad o nifer yr argymhellion archwilio a wnaed, y nifer sydd ar y gweill, a’r nifer sydd wedi’u cwblhau yn ystod y cyfnod, gan nodi eu blaenoriaeth.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Medi 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Moderneiddio tâl: contract meddygon ymgynghorol y GIG | Mai 2011 |
| Adolygiad o'r broses ar gyfer gweithredu argymhellion archwilio | Medi 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mai 2011 |

Hefyd, ceir nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain isod. Dengys hyn fod yr holl waith a nodwyd yn ein Hamlinelliad o Waith Archwilio 2011 i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o drefniadau ansawdd data gwasanaethau sgrinio | Ionawr 2012 |
| Adolygiad o drefniadau i sicrhau ymgysylltiad clinigol da | Chwefror 2012 |
| Adolygiad cyfannol manwl o'r prif risgiau a heriau sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth | Mawrth 2012 |
| Adolygiad dilynol o'r adroddiad ar foderneiddio tâl: contract meddygon ymgynghorol | Mawrth 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 ffi archwilio arfaethedig o £144,569 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail fod peth gwaith yn dal ar y gweill, yn cyd-fynd â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Roedd fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 hefyd yn cynnwys ad-daliad o £8,554 (ac eithrio TAW) o fy ffi archwilio perfformiad ar gyfer 2010 gan i'r gwaith gael ei ddirwyn i ben ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Mawrth 2011. Gwnaed yr ad-daliad hwn ym Mehefin 2011 a'i roi tuag at y gwaith o adolygu adnoddau iechyd cyhoeddus a oedd wedi'i dynnu'n ôl. Cafodd yr adolygiad o Adnoddau Iechyd Cyhoeddus ei ddirwyn i ben yn sgil camau gweithredu gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â phryderon cychwynnol a nodwyd mewn perthynas ag argaeledd adnoddau iechyd cyhoeddus ymgynghorol drwy Gymru ac i gadarnhau adnoddau tîm sy'n bodoli'n barod. Mae'r Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus lleol yn bwriadu gwneud gwaith pellach i archwilio dyraniad adnoddau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol a sut y gellir ei ddyrannu'n deg ledled Cymru.
Yn sgil hyn, nid oes angen uniongyrchol am waith archwilio manwl yn y maes hwn ac felly, cafodd yr adolygiad ei ddirwyn i ben.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk